



Y Comisiwn Datblygu  
Cynaliadwy  
Cymru

# **Datblygu cynaliadwy: yr allwedd i fynd i'r afael ag anhydraddoldebau iechyd**

2010



## Contents

<b>Rhagair: Galw am weithredu</b> .....	<b>2</b>
<b>Yr adroddiad hwn</b> .....	<b>3</b>
<b>Crynodeb</b> .....	<b>5</b>
Ymdrin ag iechyd drwy atal .....	<b>6</b>
<b>Cyfeiriadau</b> .....	<b>10</b>

## Rhagair: Galw am weithredu

O safbwynt anghydraddoldebau iechyd, mae ystyriaethau amgylcheddol yn chwarae rhan sylweddol. Mae bwyd, trafnidiaeth, manau gwyrdd a'r amgylchedd adeiledig oll yn ffactorau a all gau neu agor y bwlch o ran iechyd rhwng cymunedau cyfoethog a thlawd.

Ond cred y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy nad yw achosion amgylcheddol o anghydraddoldebau iechyd yn cael ystyriaeth briodol o hyd. Ac mae hynny'n golygu bod y rhai sy'n llunio polisiau yn colli'r cyd-fuddiannau sydd ar gael drwy ffordd gyfannol o weithredu a all greu amgylchedd gwell a phobl iachach ar yr un pryd.

Nid breuddwyd gwrrach mo hyn; mae'r dystiolaeth yn glir. Mae'r adroddiad hwn, drwy ddefnyddio corff sylweddol o ymchwil o nifer o ddisgyblaethau, yn taflu goleuni ar y cysylltiadau agos rhwng datblygu anghynaliadwy ac anghydraddoldebau iechyd ac yn hyrwyddo'r cyd-fuddiannau a ddaw yn sgîl lleadaenu cyfrifoldeb am iechyd y tu hwnt i'r gymuned gofal iechyd.

Dyna'r unig ffordd ymlaen. Yn ogystal â ffactorau amgylcheddol y profwyd eu bod yn achosi afiechyd megis llygredd aer, sŵn a dylunio trefol gwael, mae newid yn yr hinsawdd yn risg ddifrifol i iechyd a lles a bydd yn cael effaith anghymesur ar grwpiau sydd eisoes yn ddifreintiedig. Heb ystyriaeth ofalus, gall ymatebion i newid yn yr hinsawdd gynyddu effeithiau negyddol ar grwpiau tlawd. Ar yr un pryd, gall ffyrdd traddodiadol o fynd i'r afael ag

anghydraddoldebau drwy incwm gynyddu allyriadau carbon.

Os ydym am leihau anghydraddoldebau iechyd a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, mae angen ffordd wleidyddol newydd arnom, yn seiliedig ar ddealltwriaeth o ddatblygu cynaliadwy, lle mae pawb yn cael yr un cyfle i ffynnu, o fewn terfynau adnoddau ecolegol cyfyngedig a phoblogaeth fyd-eang sydd ar gynydd. Dylai'r llywodraeth fynd ati i gydgyssylltu polisiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol er mwyn iddynt gydasio i hyrwyddo ecosystem gynhaliol a chyfiawnder cymdeithasol, a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

Atal a chyfrifoldeb a rennir yw'r allwedd, fel y mae mor aml. Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn galw ar y rhai sy'n llunio polisiau ac ymarferwyr mewn llywodraeth ganolog a lleol - p'un a yw 'iechyd' neu 'datblygu cynaliadwy' yn ymddangos yn nheitl eu swydd ai peidio - i ddechrau meddwl am y ffordd y gall eu gwaith leihau anghydraddoldebau iechyd a hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn rhoi'r dystiolaeth sydd ei hangen arnoch i wneud y newid a chroesawn eich adborth.

**Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy,**  
Chwefror 2010

## Yr adroddiad hwn

Ym mis Tachwedd 2008, gofynnwyd i'r Athro Syr Michael Marmot roi cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd ar ddatblygu strategaeth anghydraddoldebau iechyd yn y dyfodol yn Lloegr ar ôl 2010. O dan yr adolygiad, o'r enw *The Marmot Review (2010) Fair Society, Healthy Lives*<sup>1</sup> (Adolygiad Marmot) sefydlwyd naw grŵp gorchwyl i ganfod tystiolaeth berthnasol ym meysydd:

- Datblygiad ac Addysg Plant yn y Blynyddoedd Cynnar
- Trefniadau Cyflogaeth ac Amodau Gwaith
- Diogelwch Cymdeithasol
- Yr Amgylchedd Adeiledig
- Datblygu Cynaliadwy
- Dadansoddi Economaidd
- Systemau a Dulliau Cyflawni
- Cyflyrau Iechyd y Cyhoedd sy'n Flaenoriaeth;
- Cynhwysiant Cymdeithasol a Symudedd Cymdeithasol.

Ni fwriedir i'r adroddiad hwn ailadrodd y drafodaeth fanwl am anghydraddoldebau iechyd a'r cyd-destun polisi a gyflwynir yn Adolygiad Marmot. Yn lle hynny, bwriedir i *Datblygu cynaliadwy: yr allwedd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd* atgyfnerthu'r negeseuon perthnasol a ddatblygwyd gan grwpiau gorchwyl yr Adolygiad ar Ddatblygu Cynaliadwy a'r Amgylchedd Adeiledig a'u rhannu gyda chynulleidfa ehangach.

Mae'r adroddiad hwn, sydd wedi'i gyfeirio at benderfynwyr cenedlaethol a lleol, ac sy'n berthnasol i ddatblygiad polisi yn y DU gyfan, nid dim ond Lloegr, yn cynnig darlun cynhwysfawr o'r ffordd mae datblygu cynaliadwy a chydraddoldeb iechyd yn ategu ac yn atgyfnerthu ei gilydd. Mae'n

pwysleisio pwysigrwydd penderfynyddion amgylcheddol iechyd, nad ydynt yn aml yn cael sylw digonol gan y rhai sy'n llunio polisiau sydd heb gylch gorchwyl amgylcheddol penodol, ac mae'n tynnu sylw at her newid yn yr hinsawdd yn benodol. Ac mae'n nodi'r dystiolaeth ynglŷn ag atebion cynaliadwy i anghydraddoldebau iechyd, gan gynnig cyd-fuddiannau amgylcheddol ac iechyd ar yr un pryd.

Datblygwyd llawer o'r deunydd yn yr adroddiad hwn fel cyflwyniad i'r Grwpiau Gorchwyl ar Ddatblygu Cynaliadwy a'r Amgylchedd Adeiledig, a oedd yn cynnwys:

### Grŵp Gorchwyl Datblygu Cynaliadwy:

**Jonathon Porritt** (Cadeirydd) – y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy gynt

**David Colin-Thomé** – yr Adran Iechyd

**Anna Coote** – Sefydliad Economeg Newydd (nef)

**Sharon Friel** - yr Adran Epidemioleg ac Iechyd y Cyhoedd, Coleg Prifysgol Llundain a'r Ganolfan Genedlaethol ar Epidemioleg ac Iechyd y Boblogaeth, Prifysgol Genedlaethol Awstralia

**Tord Kjellstrom** – Coleg Prifysgol Llundain

**Paul Wilkinson** – Ysgol Hylendid a Meddygaeth Drofannol Llundain (LSHTM)

### Cymorth ymchwil:

**Maria Arnold** – y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy

**Helen Clarkson** – Fforwm ar gyfer y Dyfodol

**Sue Dibb** – y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy

**Jane Franklin** – nef

**Tara Garnett** – Rhwydwaith Ymchwil Hinsawdd Bwyd, Prifysgol Surrey

**Jemima Jewell** – Fforwm ar gyfer y Dyfodol

**Duncan Kay** – y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy  
**Shivani Reddy** – y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy  
**Cathryn Tonne** – LSHTM  
**Ben Tuxworth** – Fforwm ar gyfer y Dyfodol  
**James Woodcock** - LSHTM

### **Grŵp Gorchwyl yr Amgylchedd Adeiledig**

**Yr Athro Anne Power** (Cadeirydd), – Ysgol Economeg Llundain (LSE)  
**Jonathan Davies** - Comisiwn dros Bensaernïaeth a'r Amgylchedd Adeiledig (CABE)  
**Paul Plant** – yr Adran Iechyd  
**Tord Kjellstrom** – Prifysgol Genedlaethol Awstralia

### **Cymorth ymchwil:**

**Catalina Turcu** – Tai Ysgol Economeg Llundain  
**Helen Eveleigh** – CABE/y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy

Yn ei gyngor i'r llywodraeth mae'r Comisiwn bob amser wedi ceisio egluro na ellir mynd i'r afael ag iechyd ar ei ben ei hun, ac fel y cyfryw mae'r adroddiad hwn hefyd yn atgyfnerthu'r cyhoeddiadau canlynol, y mae pob un ohonynt ar gael yn [www.sd-commission.org.uk](http://www.sd-commission.org.uk)

*Stock take:* Delivering improvements in existing housing

*Building Houses or Creating Communities?* A review of Government progress on Sustainable Communities

*Every Child's Future Matters*

*Health, place and nature* - How outdoor environments influence health and well-being: a knowledge base

*Setting the Table* – Advice to Government on Priority Elements of a Sustainable Diet, (cyhoeddwyd fel rhan o brosiect Bwyd 2030 Defra )

*Smarter Moves* – How information communications technology can promote sustainable mobility.

Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy (CDC) yw ymgynghorydd annibynnol y Llywodraeth ar ddatblygu cynaliadwy, sy'n atebol i Brif Weinidog y DU, Prif Weinidogion Cymru a'r Alban ac i Brif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog Gogledd Iwerddon. Drwy eiriolaeth, rhoi cyngor ac arfarnu, rydym yn helpu i sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd polisi'r Llywodraeth.

### **Tîm drafftio**

Drafftwyd yr adroddiad hwn gan Maria Arnold gyda chymorth Anna Abbott, Tess Gill, Susan Gransden, James Greenleaf, Duncan Kay, Shivani Reddy, Jake Reynolds, Shirley Rodrigues, Kay West, ynghyd â chymorth golygyddol ychwanegol gan Nicolette Fox ac Esther Maughan McLachlan.

### **Dyluniad:**

Marc and Anna, Creative

*Er mwyn trafod yr adroddiad hwn ymhellach, cysylltwch â [maria.arnold@sd-commission.org.uk](mailto:maria.arnold@sd-commission.org.uk)*

## Crynodeb

Er bod iechyd y boblogaeth wedi gwella'n sylweddol dros yr 150 mlynedd diwethaf, erys anghydraddoldebau iechyd sylweddol - a ddiffinnir fel 'gwahaniaethau systematig mewn statws iechyd rhwng gwahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol' - o hyd. Mae anghydraddoldebau iechyd yn arwydd o fathau eraill o anghydraddoldeb ac annhegwch yn ein cymdeithas, ac felly mae sicrhau cydraddoldeb iechyd yn fater o gyfiawnder cymdeithasol.

Mae datblygu cynaliadwy yn fan cychwyn rhesymegol ac yn fframwaith dadansoddi hanfodol i ddod o hyd i ffyrdd o leihau anghydraddoldebau iechyd. Esbonia'r adroddiad hwn beth yw datblygu cynaliadwy, pam mae'n bwysig o ran anghydraddoldebau iechyd, a'r ffordd y gall arwain at oblygiadau ymarferol i'r broses o lunio polisiau.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar anghydraddoldebau rhwng gwahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol, ar y sail bod statws economaidd-gymdeithasol yn dylanwadu'n gryf ar anghydraddoldebau sy'n ymwneud ag ethnigrwydd, rhyw, oedran ac anabledl a/neu yn eu dwysáu.

Deïllir **datblygu cynaliadwy** yn nhermau pum Egwyddor Sylfaenol a bennwyd gan y Llywodraeth. Mae'r rhain yn ymwneud â'r amgylchedd, cymdeithas, yr economi, llywodraethu a gwybodaeth.

Mae'r egwyddorion sylfaenol hyn yn cynnig **fframwaith systematig** sy'n hynod berthnasol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Mae'n gyson â **'model cymdeithasol'** iechyd, ond mae'n ei estyn ac yn ei atgyfnerthu drwy bwysleisio:

- Safbwynt **hirdymor**, sy'n tynnu sylw at anghenion a gofynion cenedlaethau'r dyfodol a **chydraddoldeb rhwng cenedlaethau**
- Ffocws ar **benderfynyddion** amgylcheddol iechyd ac anghydraddoldebau iechyd, yn enwedig effeithiau newid yn yr hinsawdd
- Meddwl am **ffyrdd amgen i dwf economaidd heddiw** er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor, cydraddoldeb a gwell lles
- Cyfleoedd i fuddsoddi mewn mesurau **synergyddol** neu gyd-fuddiannau sy'n lleihau niwed amgylcheddol, yn hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd ar yr un pryd
- Polisiau a gweithredoedd sy'n gwella bywyd i'r bobl dlotaf ym mhoblogaeth y byd
- Pwysigrwydd cael gweledigaeth glir o'r hyn yr hoffem ei gyflawni erbyn 2025

Yn erbyn cefndir 'darlun mawr' heriau newid yn yr hinsawdd ac economi anghynaliadwy, mae'r adroddiad hwn yn rhoi tystiolaeth fanwl am gyd-fuddiannau cydraddoldeb iechyd a datblygu cynaliadwy sydd ar gael mewn pedwar sector: bwyd, trafniadaeth, manau gwydd a'r amgylchedd adeiledig. Mae'r adroddiad yn gorffen drwy roi argymhellion i lywodraeth ganolog a lleol ac amlinellid o'r ffordd ymlaen o ran system iechyd sy'n seiliedig ar atal yn y dyfodol.

## Ymdrin ag iechyd drwy atal

Mae amgylcheddau afiach, swnllyd, llygredig a'r rhai sy'n creu gordewdra<sup>2</sup> yn creu cylch seithug o salwch cronig, sy'n lleihau lles unigol a chymunedol. Mae'r materion hyn hefyd yn cynyddu ôl troed carbon unigolion a'r GIG ac yn tansilio dichonoldeb hirdymor y system iechyd.

Yn y byd datblygedig, mae gwasanaethau gofal iechyd yn tueddu i ddefnyddio llawer o adnoddau. Pe bai pobl mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is mor iach â'r rhai mewn grwpiau uwch, byddai llai o bobl yn arwain bywydau nad ydynt yn iach y mae angen gofal iechyd arnynt. Byddai hyn yn helpu i leihau costau gofal iechyd ac ôl troed carbon y GIG, ac arbed arian i drin salwch na ellir ei osgoi a mynd i'r afael ag achosion anghydraddoldebau iechyd. Gall gofal iechyd, sydd, er enghraifft, yn ffafrio gofal sylfaenol yn y gymuned ac yn croesawu egwyddorion dinasyddiaeth gorfforaethol dda, helpu i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol anghydraddoldebau a thrwy hynny leihau faint o adnoddau a ddefnyddir ym maes gofal iechyd yn yr hirdymor.

Bydd buddsoddi arian cyhoeddus mewn mesurau megis teithio byw, hyrwyddo mannau gwyrdd a bwyta'n iach yn esgor ar gyd-fuddiannau o ran iechyd ac allyriadau carbon. Ond dylai cyfleoedd i fyw'n iach mewn ffordd carbon isel gael eu dosbarthu mewn ffyrdd sy'n ffafrio pobl ag incwm isel a thrwy hynny helpu i'w gwneud yn llai tebygol o ddioddef salwch.

Er mwyn llwyddo mae angen partneriaethau lleol cryf, ymdeimlad cryfach o gyfrifoldeb am iechyd a lles ac ymwneud systematig rhwng y GIG ac asiantaethau datblygu rhanbarthol, llywodraeth leol a rhanbarthol a gofal cymdeithasol.

Mae **anghydraddoldebau rhwng ardaloedd** yn awgrymu bod yr ardal lle mae rhywun yn byw yn effeithio ar ba mor dda mae'n byw nawr ac yn y dyfodol, a hyd yn oed ei ddisgwyliad oes. Mae seilweithiau ffisegol (llygredd, traffig, sŵn, mynediad at amwynderau) a chymdeithasol (agweddau ac ymddygiadau unigol ac ar y cyd) cymdogaeth oll yn effeithio ar iechyd.

Mae perthynas gref rhwng mesurau lleol o amddifadedd a disgwyliad oes is; gyda'r bwlch rhwng ardaloedd cyfoethog a thlawd yn cynyddu yn ystod y 1980au a'r 1990au. Mae grwpiau agored i niwed megis plant a lleiafrifoedd ethnig yn dioddef yn arbennig mewn cymunedau trefol, a hefyd bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig difreintiedig.

Mae **newid yn yr hinsawdd** yn peri risgiau difrifol i iechyd a lles pawb, fel y nodwyd yn ddiweddar gan y Lancet a Sefydliad Iechyd y Byd. Mae grwpiau cymdeithasol tlawd yn fwy tebygol o fod yn agored i'r risgiau hyn, yn fwy tebygol o feddu ar lai o adnoddau i leddfu eu heffeithiau, ac yn llai tebygol o gael eu hyswirio rhagddynt.

Mae'n rhaid i ymatebion i newid yn yr hinsawdd gael eu hystyried yn ofalus, am y gallant effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar iechyd. Bydd grwpiau tlawd yn dioddef yn anghymesur o dan gyfundrefnau trethi a phrisio atchweliadol, ac maent yn aml yn dueddol o fod yn llai abl i ymateb yn rhwydd i ymgyrchoedd sy'n annog newid ymddygiad. Mae'n rhaid i fesurau sydd â'r nod o ymateb i newid yn yr hinsawdd beidio ag ehangu anghydraddoldebau iechyd. Yn yr un modd, dylai ymdrechion i leihau anghydraddoldebau iechyd geisio lleihau allyriadau carbon.

Ni ellir sicrhau **economi gynaliadwy** drwy dwf economaidd parhaus fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol, o leiaf nid mewn



gwledydd datblygedig megis y DU. Mae angen trawsnewid natur twf a phryniant ar unwaith. Ni ellir 'datgysylltu' twf oddi wrth ei allanoldebau cymdeithasol ac amgylcheddol, nac oddi wrth allyriadau CO<sub>2</sub> yn benodol. Mae'r ddwy agwedd hyn ar gyflawni economi gynaliadwy yn cynnig heriau pwysig i bolisi economaidd.

Fel y dadleuwyd mewn gwaith blaenorol gan y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, nid ar gynnydd parhaus mewn twf economaidd y mae ffyniant yn dibynnu; yn hytrach y ffordd orau o'i ddiffinio yw drwy allu pobl i ffynnu'n gorfforol, yn seicolegol ac yn gymdeithasol. Ni ellir gwadu nad oes gan ffyniant ddimensiynau materol, ond mae'r diwylliant cyfredol o bryniant yn rhwystr i alluogi pobl i ffynnu mewn ffyrdd llai materol. Gall ymdrin â'r rhwystrau hyn helpu i leihau llawer o'r newidynnau cymdeithasol ac economaidd sy'n penderfynu anghydraddoldebau iechyd.

Ceir llwybrau i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd drwy greu amodau sy'n rhoi cyfle cyfartal i bawb i ffynnu, o fewn terfynau a bennir gan adnoddau ecolegol cyfyngedig a phoblogaeth fyd-eang sydd ar gynnydd. Mae polisiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yn rhyngddibynol ac yn atgyfnerthu ei gilydd, ac mae angen i'r llywodraeth fynd ati i'w cydgyssylltu er mwyn iddynt gydasio i leihau anghydraddoldebau iechyd a hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol ar lefelau cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae **bwyd** yn ffactor allweddol sy'n cyfrannu at anghydraddoldebau iechyd ac allyriadau carbon. Mae grwpiau cymdeithasol tlawd yn llai tebygol o gael cyfle i fwyta deiet iach. Mae bwyd yn cyfrif am 19 y cant o gyfanswm yr allyriadau nwy tŷ gwydr sy'n ymwneud â phryniant yn y DU. Mae bwydydd y mae angen defnyddio

llawer o ynni i'w cynhyrchu yn tueddu i gael effeithiau mwy negyddol ar iechyd. Bydd lleihau faint o ynni a ddefnyddir mewn systemau cynhyrchu a chadwyni cyflenwi yn helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, cynyddu diogelwch bwyd a lleihau'r tebygolrwydd o gynnydd mewn prisiau y mae grwpiau cymdeithasol tlawd yn arbennig yn agored iddynt. Felly gall polisi bwyd gynaliadwy esgor ar sawl mantais o ran iechyd a lleihau newid yn yr hinsawdd.

Mae fforddiadwyedd a hygyrchedd corfforol hefyd yn bwysig wrth ystyried anghydraddoldebau iechyd. Mae'n rhaid i arferion corfforaethol yn y system fwyd a pholisiau'r llywodraeth annog a galluogi pobl i wneud dewisiadau iach a chynaliadwy o ran bwyd - drwy gaffael cyhoeddus ond hefyd drwy ddefnyddio dulliau cyllidol a dulliau polisi eraill. Dylai mentrau bwyd lleoel gael eu hannog. Mae system fwyd gynaliadwy sy'n gallu cyflenwi bwyd iach a diogel sydd â buddiannau cymdeithasol cadarnhaol ac effeithiau amgylcheddol isel yn hanfodol i sicrhau mwy o gydraddoldeb iechyd.

Mae dibyniaeth cymdeithas gyfoes ar **drafnidiaeth** fodurol yn niweidiol i iechyd a lles, cydraddoldeb iechyd, a'r amgylchedd. Mae trafndiaeth yn cyfrif am tua 29 y cant o allyriadau carbon deuocsid y DU, ac mae'n cyfrannu'n sylweddol at rai o heriau mwyaf heddiw i iechyd y cyhoedd yn Lloegr. Mae'r rhain yn cynnwys baich anafiadau ar y ffyrdd; anweithgarwch corfforol, gyda'r holl sgil-effeithiau o ran gordewdra, salwch cronig a salwch meddwl; effaith andwyol traffig ar gydlyniant cymdeithasol; ac effaith llygredd aer a sŵn. Dengys dadansoddiad diweddar yn Sweden i ba raddau y caiff effeithiau negyddol ar iechyd eu tanamcangyfrif ar hyn o bryd.

Mae llawer o'r risgiau hyn yn gysylltiedig â statws economaidd-gymdeithasol. Anafiadau ar y ffyrdd sy'n dangos un o'r gwahaniaethau mwyaf mewn perthynas â thlodi a diweithdra, ac mae llawer o'r effeithiau amgylcheddol, gan gynnwys llygredd aer ac afleoli cymunedol, yn tueddu i gael eu hysgwyddo'n anghymesur gan boblogaethau tlawd. O'r herwydd, mae'n rhaid i fentrau cenedlaethol neu ddinesig gael eu dylunio i fod o fudd i'r boblogaeth gyfan, ond dylid blaenoriaethu'r rhai o grwpiau economaidd-gymdeithasol is.

Mae llawer o fesurau eraill sydd wedi cael eu profi i fod yn effeithiol, a all helpu i leihau anghydraddoldebau os cânt eu targedu'n briodol. Felly mae newidiadau dybryd a mawr yn y sector trafndiaeth yn gyfle i wella iechyd y cyhoedd a lleihau anghydraddoldebau iechyd tra'n lleihau allyriadau carbon a pheidio â dibynnu ar dybiaeth o dwf economaidd parhaus. Bydd mynediad i **fannau gwyrdd** o fudd yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol o ran iechyd a lles, yn enwedig i grwpiau economaidd-gymdeithasol is. Mae agosrwydd i'r amgylchedd naturiol, a'r amser a dreulir ynddo, yn cael effaith gadarnhaol gref ar ffactorau megis nifer y cwynion ynglŷn ag iechyd, iechyd cyffredinol canfyddedig, straen, pwysau gwaed, iechyd meddwl a chyfraddau gwella ar ôl llawdriniaeth. Mae mannau gwyrdd hefyd yn cael buddiannau anuniongyrchol, drwy annog gweithgarwch corfforol, cyswllt ac integreiddio cymdeithasol, a chwarae plant; drwy wella ansawdd aer; a thrwy leihau effeithiau yn wres drefol.

Nid yw mannau gwyrdd wedi'u dosbarthu'n gyfartal rhwng grwpiau economaidd-gymdeithasol, gyda llai o fynediad, ar y cyfan, i grwpiau cymdeithasol tlawd. Awgryma ymchwil ddiweddar fod anghydraddoldeb mewn iechyd ar sail

incwm, ledled Lloegr (o bob achos o farwolaeth a marwolaethau oherwydd afiechyd cylchrediad y gwaed) yn llai amlwg mewn poblogaethau sy'n cael mwy o fynediad i fannau gwyrdd. Mae'r mathau o benderfynyddion a chyflyrau iechyd y mae mannau gwyrdd yn dylanwadu arnynt fwyaf (megis gweithgarwch corfforol, gordewdra, iechyd meddwl, afiechyd cylchrediad y gwaed ac asthma) yn sylweddol iawn o ran anghydraddoldebau iechyd. Felly gallai mynediad mwy cyfartal i fannau gwyrdd fod yn allwedd i leihau anghydraddoldebau iechyd - ffordd ataliol a synergyddol sy'n esgor ar fuddiannau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.

Yn ogystal â thrafnidiaeth a mannau gwyrdd, mae ffocws ar yr **amgylchedd adeiledig** yn cynnig cyd-fuddiannau penodol o ran cydraddoldeb iechyd a datblygu cynaliadwy drwy wella effeithlonrwydd ynni yn y cartref ac amodau eraill e.e. lleithder. Bydd gosod cyfarpar mewn cartrefi sy'n bodoli eisoes yn lleihau cyfraddau afiechyd y galon ac afiechyd anadlu, yn lleihau nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig ag oerfel, yn sicrhau nad yw pobl mewn tlodi tanwydd, yn gwella lles ac yn helpu i leihau allyriadau carbon.

Gall mynediad i gyfleusterau lleol, megis siopau, tafarndai, ysgolion a llyfrgelloedd, gynnig cyfleoedd am ryngweithio cymdeithasol, helpu i greu ymdeimlad o gymuned a chynnig cyflogaeth, sydd oll yn ffactorau mewn anghydraddoldebau iechyd. Dengys tystiolaeth yn gyson bod pobl sy'n cael mynediad hawdd at gyfleusterau ar gyfer gweithgarwch corfforol - llwybrau beicio, parciau lleol a mannau gwyrdd eraill, traethau neu ganolfannau hamdden - yn fwy tebygol o fod yn egniol na'r rhai nad ydynt yn cael mynediad hawdd. Dylid hefyd ystyried gofynion mynediad penodol pobl anabl.

Gall cynllun yr amgylchedd adeiledig ddylanwadu ar droseddau a theimlad o fod yn ddiogel ac mae cydberthynas gref rhwng troseddau, tlodi ac afiechyd. Mae tirlunio, goleuadau stryd a gwelliannau i barciau a mannau chwarae lleol oll yn annog pobl i fynd allan ar y stryd, gan arwain at fwy o oruchwyliaeth naturiol a chydlyniant cymdeithasol.

**Mae'n rhaid i system iechyd gynaliadwy** dderbyn y fframwaith a amlinellir yn y papur hwn a chanolbwyntio ar atal, gydag atebolrwydd ehangach am iechyd ar bob lefel cyflawni. Gall y gwasanaeth iechyd yn Lloegr, mewn partneriaeth â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol fynd ati i wrth-droi'r duedd tuag at amgylcheddau sy'n creu gordewdra ac annog cymunedau cynaliadwy yn eu lle. Daw buddiannau lluosog yn ei sgil o ran newid yn yr hinsawdd yn ogystal â materion amgylcheddol eraill megis llygredd aer sy'n dylanwadu ar iechyd a lles, ac anghydraddoldebau iechyd.

Ceir cydberthynas gref rhwng gofal sylfaenol, anghydraddoldeb incwm a marwolaethau, a dosberthir darpariaeth mewn ffordd anghyfartal ar hyn o bryd. Mae dadl gref dros roi mwy o flaenoriaeth i wasanaethau yn y gymuned, gan arwain at well mynediad at wasanaethau iechyd, mwy o gyfalaf cymdeithasol, llwybrau carbon isel a model cadarn o ran sicrhau dichonoldeb hirdymor y system iechyd. Mae hunanofal hefyd yn llwybr gofal carbon isel a cheir tystiolaeth gref iawn fod buddiannau iechyd yn arwain at lai o ymweliadau â meddygon teulu llai o ddefnydd o feddyginiaethau.

Gall sefydliadau yn y GIG ddangos i'r sector cyhoeddus ehangach - yn wir pob sector - sut i ymgymryd â datblygu cynaliadwy a mynd i'r afael â phenderfynyddion anghydraddoldebau iechyd drwy eu busnes

o ddydd i ddydd - dull gweithredu a elwir yn 'dinasyddiaeth gorfforaethol dda'. Gwelwyd canlyniadau llwyddiannus, er enghraifft drwy raglenni cyflogaeth, caffael bwyd lleol a chyfeiriadau meddygon teulu at gronfeydd amser.

Bydd system iechyd gynaliadwy mewn economi carbon isel gynaliadwy yn hyrwyddo lles i bawb, gan ganolbwyntio ar atal, gwneud gwell defnydd o adnoddau dynol, hyrwyddo byw carbon isel yn deg a 'dinasyddiaeth gorfforaethol dda', a barnu llwyddiant o ran effeithiau ar gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd yn y tymor canol a'r hirdymor. Mae penderfyniad arloesol Cyngor Dinas Bryste i roi arbenigwr iechyd y cyhoedd yn yr adran drafnidiaeth yn dangos buddiannau cyfrifoldeb a rennir am anghydraddoldebau iechyd a gweithio'n well mewn partneriaeth.

## Cyfeiriadau

---

<sup>1</sup> Adolygiad Marmot (2010) *Fair Society, Healthy Lives* Llundain: The Marmot Review.

<sup>2</sup> *Amgylcheddau sy'n cyfrannu at ordewdra drwy ddylanwadu ar gymeriant a gwariant egni.*